

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Uwch Ecolegydd

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH
ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





**Teitl y swydd:** Uwch Ecolegydd

**Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.**

**Rydym yn chwilio am Peiriannydd Technoleg Priffyrdd i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.**

**Cyflog:** PS4 (SCP 35-37)
£46,142 - £48,226

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:**– Conwy, Bangor, Halkyn, Llandrindod, Aberystwyth, Newtown, Dolgellau

**Dyddiad cau:** 24/07/2026

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Bydd yr Uwch Ecolegydd yn darparu cyngor a chymorth ecolegol proffesiynol i dimau a phartneriaid Asiant Cefnffyrdd, gan sicrhau bod gweithrediadau cyfalaf a chynnal a chadw yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol wrth wneud y mwyaf o gyfleoedd i wella bioamrywiaeth, gan gynnwys cefnogi gofynion Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a *Llwybr Newydd i Natur*. Byddwch yn cefnogi'r Rheolwr Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd a thimau ehangach wrth ddatblygu a gweithredu strategaethau, polisïau a rhaglenni gwaith amgylcheddol sy'n diogelu, rheoli a chynnal yr ystâd feddal.

Bydd y rôl yn cynnwys sicrhau trwyddedau rhywogaethau a safleoedd gwarchodedig, caniatadau a chydsyniadau lle bo angen, gan sicrhau bod yr holl ofynion cysylltiedig o ran arolygon, monitro ac adrodd yn cael eu bodloni, yn ogystal â datblygu trwyddedau Rhaglen Waith ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig ar draws y rhwydwaith a systemau adrodd sy'n bodloni gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Byddwch yn rheoli ac yn gwella'r broses o nodi a lliniaru cyfyngiadau amgylcheddol (TRECS), yn goruchwylio'r broses o gofnodi anifeiliaid gwyllt sydd wedi'u lladd ar y ffyrdd ac yn defnyddio'r data i nodi cyfleoedd ar gyfer mesurau lliniaru, gan gynnwys cyflwyno seilwaith priodol i hwyluso symudiad diogel bywyd gwyllt ar draws y rhwydwaith ffyrdd strategol. Byddwch hefyd yn rheoli cyllidebau a phrosiectau sy'n ymwneud â gwaith lliniaru a gwella ecolegol ac amgylcheddol, yn hyrwyddo arloesedd amgylcheddol




Mae'r swydd yn cynnwys y cyfrifoldebau ychwanegol canlynol ac mae’r Swydd Disgrifiad yn rhoi cefndir mwy cynhwysfawr i chi o’r swydd):

- Darparu cyngor a chyfarwyddyd ecolegol/amgylcheddol ar draws timau asiantaethau, gan gynnwys adroddiadau adolygu a monitro (gan gynnwys TRECs, PEAR, EAR, EIA, a HRA) ar effaith a lliniaru effaith gwaith cyfalaf a chynnal a chadw ar yr ystâd feddal, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol.
- Cefnogi'r Rheolwr Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd i ddatblygu a chyflawni strategaeth bioamrywiaeth ACGCC i gyflawni amcanion Llwybr Newydd i Natur (Cynllun Gweithredu Adfer Natur Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru), DMRB, SDA, WGTRMM, WMMAA a pholisïau, canllawiau a mentrau perthnasol eraill.
- Cynghori a chysylltu ag Ymgynghorwyr ac Awdurdodau Partner ynghylch materion amgylcheddol gyda'r nod o gysoni trefniadau ar draws yr Asiant ac ar draws yr ystod gyfan o weithrediadau a gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â chontractwyr a goruchwylio contractwyr sy’n gwneud gwaith adeiladu a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo safonau ymarfer da.
- Goruchwylio a chyfarwyddo gwaith yr Ecolegydd Cynorthwyol.
- Rheoli gwahanol raglenni gwaith amgylcheddol cyfalaf a refeniw a sicrhau bod cynlluniau yn cael eu gweithredu gan gadw at amcangyfrifon costau a thargedau amser.
- Ar y cyd â'r Rheolwr Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd, datblygu rhaglenni cyflenwi cyfalaf/rheoli amgylcheddol sy'n cael blaenoriaeth barhaus ar gyfer rhwydwaith cefnffyrdd yr Asiant, er mwyn cynorthwyo yn y broses gynnig, a rheoli cyllidebau fel y bo'n briodol.
- Gweithio gyda'r Cydlynwyr Amgylcheddol i ddatblygu, gweithredu a chadw rhestr o ystâd feddal y gefnffordd, o fewn system reoli briodol a defnyddio'r system i gyhoeddi a rheoli gwaith yn ôl yr angen
- Rheoli'r broses i dimau ACGCC allu cofnodi'r bywyd gwyllt a leddir ar y ffordd. Adolygu canlyniadau yn rheolaidd a gweithredu yn strategol arnynt, er enghraifft trwy adnabod a chyflwyno seilwaith bywyd gwyllt addas i hyrwyddo taith ddiogel bywyd gwyllt ar draws y rhwydwaith ffyrdd strategol (SRN).
- Rheoli a gwella’r drefn/broses ar gyfer timau ar draws ACGCC i wirio a lliniaru ar gyfer cofnodion a chyfyngiadau amgylcheddol (TRECS), gan sicrhau bod gwybodaeth am gofnodion amgylcheddol ar gael ac yn cael ei rhannu, yn amodol ar reoli gwybodaeth sensitif am rywogaethau a warchodir yn briodol.
- Cyfrannu at y broses o sicrhau cydymffurfiaeth ag ISO 14001, Systemau Rheoli Amgylcheddol, ar gyfer yr Asiant, gan gynnwys llunio dogfennau amgylcheddol a dogfennau eraill (gan gynnwys trafodaethau cefnffyrdd) ynghylch gweithredu a gwella'r rhwydwaith ffyrdd strategol a sefydlu a monitro targedau perfformiad yn ôl yr angen.
- Cysylltu â LlC, Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymgynghorwyr mewn perthynas â thrwyddedau rhywogaethau a warchodir a safleoedd gwarchodedig. Ar ran deiliad dynodedig y drwydded, rheoli'r holl rwymedigaethau sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r trwyddedau fel y nodir gan y corff trwyddedu.
- Caffael, rheoli a goruchwylio ymgynghorwyr a chontractwyr amgylcheddol neu ecolegol arbenigol ar faterion cefnffyrdd, gan gydymffurfio'n llawn â rheolau caffael a'r broses gaffael.
- Monitro'r gwaith o gyflwyno elfennau amgylcheddol Contract DBFO A55 gan Gwmni DBFO, a chymryd camau i sicrhau bod y gwaith hwnnw yn cydymffurfio'n llawn â gofynion cytundebol, gan gymryd cyfrifoldeb am reoli materion ecolegol a thirwedd yn ôl yr angen.
- Cynghori ac/neu drefnu hyfforddiant priodol ar faterion ecolegol/amgylcheddol ar gyfer ACGCC a staff yr Awdurdod Partner fel y bo'n briodol.
- Sicrhau bod gofynion adrodd amgylcheddol Llywodraeth Cymru yn cael eu bodloni.




# Manylion Person

## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i'r swydd

### Hanfodol

Bydd y deiliad swydd yn gallu gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm, gan ddangos ymrwymiad i ddiogelu a gwella'r amgylchedd a hyrwyddo bioamrywiaeth. Bydd yn hunangymhellol ac yn gallu gweithio ar ei liwt ei hun gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosibl, gyda sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol. Bydd hefyd yn gallu cynnal gwaith arolygu ar safleoedd, yn aml mewn ardaloedd ger cefnffyrdd cyflym, a meddu ar y gallu i reoli prosiectau a chyflawni targedau rhaglenni o fewn yr amserlenni gofynnol.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

### Hanfodol

Gradd neu gyfwerth mewn Ecoleg neu faes arbenigol perthnasol

## Profiad perthnasol

### Hanfodol

O leiaf pum mlynedd o brofiad o weithio mewn swydd sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd neu Ecoleg.  Profiad o asesu effaith prosiectau/gweithgareddau ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth.  Profiad o gynghori ar reoli cynefinoedd a gofynion rhywogaethau

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

### Hanfodol

Bydd gennych wybodaeth fanwl am gynefinoedd a rhywogaethau'r DU, ynghyd â dealltwriaeth gadarn o ddeddfwriaeth y DU ac Ewrop sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a bioamrywiaeth. Byddwch yn gallu adnabod ac asesu cynefinoedd â blaenoriaeth a chynefinoedd sensitif, gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth i'w gwella, ac esbonio gwybodaeth amgylcheddol dechnegol yn glir i staff nad ydynt yn arbenigwyr. Byddwch yn fedrus wrth ddefnyddio ystod o systemau TG, gan gynnwys rheoli a dehongli data GIS, ac yn meddu ar ymwybyddiaeth dda o ofynion iechyd a diogelwch. Bydd gennych sgiliau rhyngbersonol rhagorol, y gallu i ymdrin â'r cyhoedd a chydweithwyr mewn modd sensitif, goruchwylio a chyfarwyddo staff, a gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm bach yn ogystal ag ar eich liwt eich hun gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosibl. Mae trwydded yrru lawn a chyfredol yn hanfodol ar gyfer y swydd.

## Gofynion ieithyddol

### Hanfodol

Mae gallu siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, Cymraeg yn ddymunol.

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a



- 29.5 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.